CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 3 MEHEFIN 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W R Owen

Cynghorwyr
B Owen, W T Owen, I C Thomas ,H W Roberts, A Bohana, A Hopcyn, E Lovgreen, M Thomas, T Thomas, E Hughes, K Williams, C Williams

Siaradwr Gwadd : Mr Lyn Cadwaladr – Prif Weithredwr Unllais Cymru

Nodwyd bod tri chwarter y Cynghorau mewn aelodaeth a dal i dyfu
Gwasanaethau yn datblygu
Cynyddu cydnabyddiaeth a dylanwad yn genedlaethol ac yn lleol

I weithredu fel corff cynrychiadol sengl i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru

I hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth am rôl gynghorau cymuned a thref

I ddatblygu a cynghori ar bolisïau sy'n perthnasol i'r sector

Cynrychioli cynghorau yn Genedlaethol gan ddylanwadu ar gyrff eraill sydd yn rhannu diddordebau yn y sector
Cefnogi cynghorau yn unigol- cyngor ar faterion penodol

95% o gwestiynau yn cael eu ateb o fewn 3 diwrnod rhan fwyaf o fewn diwrnod

Cafodd dros 1500 o Gynghorwyr hyfforddiant llynedd

Cael cyfarfodydd rheolaidd gyda cyrff megis Llywodraeth Cymru, National Association of Local Councils NALC, Society of Local Council clerks SLCC, Wales Council for Voluntary Assosiations WCVA, Centre for Regeneration Excellence CREW

Cylchgrawn chwarterol , wefan, ymchwil ac hyfforddiant

Rhaid fod yn wyliadwrus tu hwnt wrth i Gynghorau Sir geisio datganoli gwasanaethau , nifer o Gynghorau wedi cael cyngor gwael gan y Cynghorau Sir gan bod nhw yn dymuno i'r Cynghorau gymryd pethau drosodd . Angen sicrhau mynd trwy broses ymgysylltu cymunedol gyntaf i sicrhau bod y gymuned yn dymuno cael y gwasanaeth

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan Cynghorwyr
Sut mae newidiadau o fewn y cynghorau Sir am amharu ar ein sector?

Os na wneith Llywodraeth Cymru arolwg yna fydd diffyg, angen rheolaeth

Ydi hi'n adeg cael astudiaeth newydd?
Angen model ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd fydd yn cael eu greu trwy cydweithrediad a chyrff eraill ac er budd Cymru

Os nad ydi'r Cynghorau Sir am ddarparu gwasanaeth yna fydd rhaid iddyn nhw greu model i pwy bynnag maent yn disgwyl cymryd o drosodd

Faint o arian mae llywodraeth Cymru yn rhoi i Unllais mewn cymhariaeth a WLGA?
27c y pen i Unllais a £2 y pen i WLGAac mae Unllais yn ymateb i gymaint o ymgynghoriadau a hwy

Nodwyd bod nifer o esiamplau drwg lle mae Cynghorau cymuned wedi derbyn asedau gan y Cyngor Sir heb gael cyngor annibynnol ac felly wedi creu trafferthion mawr iddynt

Diolchodd Y Maer iddo am ei amser

1. Ymddiheuriadau

Cyng H Edwards, Cyng G Thomas, Cyng W L Davies, Cyng A Kirk

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Cyhoeddiadau'r Maer / Mayor's Announcements

16.5.2014	Bore Coffi BHF
16.5.2014	Noson Gwobrwyo Clwb Peldroed Caernarfon
18.5.2014	Mynd a 31 'New Zealanders' i'r Castell
21.5.2014	Morrisons Caernarfon - enwi'r ddraig
22.5.2014	Agoriad swyddogol Gorsaf yr Harbwr Porthmadog
29.5.2014	Baton y Frenhines
1.6.2014	Ras am Fywyd a Rali Ceir
2.6.2014	Cyfarfod a Maer Trelew

Nodi fydd Sul Y Maer ym Mis Medi

3. **Datgan Buddiant Personol**

W T Owen – cynllunio

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Rhybudd o gynnig Cyng. H W Roberts parthed Amgueddfa Ffiwsilwyr

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 6 Mai 2014
ii. Panel Cyllid a Staff 13 Mai 2014
iii. Cyfarfod Blynyddol 15 Mai 2014
iv. Panel Cyllid a Staff 27 Mai 2014 a 2 Mehefin 2014

Cofnodion Panel cyllid Mai 27

Cadeirydd H W Roberts
Presennol M Thomas, B Owen, W R Owen, K Williams, A Kirk, W T Owen , I C Thomas
(roedd Cyng A Bohana yn bresennol ond ni gymerodd ran yn y broses marcio)

1. **Ymddiheuriadau**
   Cyng W L Davies a Cyng T Thomas (roedd cyng T Thomas wedi cwestiynnu dilysrwydd y cyfarfod, ond roedd y clerc wedi derbyn Cyngor Cyfreithiol gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau bod yn iawn inni barhau

2. **Datgan Buddiant Personol**
   I C Thomas yn datgan am fod un ymgeisydd wedi gweithio I gorff mae o yn perthyn I
   W T Owen yn datgan am fod un ymgeisydd wedi defnyddio ei enw fel canolwr

   Eglurodd y cadeirydd efallai fydd rheswm dros ddatgan ddim yn amlwg , ond ei bod yn bwysig datgan unwaith roedd unrhyw un yn teimlo bod y sefyllfa yn codi

3. **Creu rhestr fer o'r ymgeiswyr ar gyfer swydd gofalwr**
   Eglurodd y clerc a'r cadeirydd bod hwy wedi ceisio hwyluso'r broses gan fod cymaint o geisiadau wedi dod I law ac wedi egluro y broses roeddent wedi defnyddio o system sgorio . roeddent wedi dod a 33 cais lawr i 11, ond hefyd wedi egluro bod yr holl geisiadau I law os oedd unrhyw un yn dymuno eu gweld au trafod

Penderfynwyd edrych ar y 11 cais a rhoddwyd ffurflen sgorio o dan benawdau i bob Cynghorydd

Cafodd pawb amser teg I ystyried y ceisiadau a'I sgorio ac yna roedd y clerc wedi mynd ati I gyfri'r pwyntiau

Ddaeth tri cais yn amlwg I'r blaen a Penderfynwyd cyfweld y tri ac hefyd cynnig iddynt ddod I'r adeilad am 5.30 ar noson y cyfweliadau er mwyn cael orymdaith o'r cyfleusterau er mwyn ceisio gweld sut roeddent yn ymateb I bobl eraill mewn sgwrs

Creuwyd rhestr o gwestiynnau a penderfynnu bod angen gofyn y ru'n cwestiynnau I bawb ac un yn Saesneg

Gorffenodd y cyfarfod am 7.15 (ers 5.30)

Arwyddwyd ……. Dyddiad ……

A **cofnodion panel cyllid 2 Mehefin**

Cofnodion Panel Cyllid 2 Mehefin 2014

Presennol

Cadeirydd – Cyng H W Roberts

Cynghorwyr – M Thomas, B Owen, W R Owen, K Williams

1. Ymddiheuriadau
   Cyng A Kirk
2. Datgan buddiant personol
   Roedd yn rhaid I Cyng M Thomas ddatgan buddiant ar ol gweld y trydydd ymgeisydd felly er tegwch cymerwyd "average" o sgor y pedwar arall ar gyfer yr unigolyn yna
3. Ethol ymgeisydd
   Roedd un ymgeisydd sef ymgeisydd dau efo sgor llawer iawn yn uwch ac felly cytunwyd I gynnig y swydd iddo gan ddisgwyl am ymateb y canolwyr cyn ei benodi (y pwyllgor I gyd I gweld y llythyrau cyn benodi)

   Gorffenodd y cyfarfod am 7.40
   Arwyddwyd ……. Dyddiad …….

Penderfynwyd

i. Derbyn fel rhai cywir
ii. Derbyn fel rhai cywir
iii. Derbyn fel rhai cywir
iv. Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0364/14/LL **Cytuno**

Lledu'r fynedfa bresennol a gosod rhwystrau mynediad

Coed Helen Caravan Park, Coed Helen Road, Caernarfon

---

2. C14/0368/14/LL **Cytuno**

Addasu'r adeilad allanol o anecs i Siop trin gwallt

29 Rhes Segontium/Segontium Terrace Caernarfon

****

3. C14/0371/14/LL **Cytuno**

Ymestyn y mannu parcio presennol/

Ffordd Ysgubor Goch, Caernarfon

****

4. C14/0372/14/LL **Cytuno**

Creu mannau parcio

Ffordd Marchlyn, Caernarfon

****

5. C14/0400/14/LL **Cytuno**

Addasu'r llawr cyntaf a'r ail lawr o ddefnydd clwb i 4 uned breswyl hunan-gynhaliol gyda man newidiadau ynghyd a newid defnydd siop ar y llawr gwaelod i fod yn rhan o'r clwb i'w ail-wampio

The Royal British Legion, 74-78 Stryd y Llyn/ Pool Street, Caernarfon

****

6. C14/0399/14/CR **Cytuno**
Gosod canopis ar flaenau'r siopau

Spinnakers, 7/8 Maes, Caernarfon

****

7. C14/0401/14/LL **Cytuno**
Gosod canopis ar flaenau'r siopau

Spinnakers, 7/8 Maes, Caernarfon

****

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

9. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

i)Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau, is - bwyllgorau
ii) Adolygu cylch gorwyl pwyllgorau
iii) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol
iv) Enwebiadau cyrff allanol
v) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd
vi) Mabwysiadu rheolau sefydlog a rheolau ariannol
vii) Mabwysiadau rhestr asedau
viii)Adolygu aelodaeth Cyngor/neu weithwyr o gyrff arall
ix) Adolygu trefniadau cwynion
x) Adolygu polisïau

Penderfynwyd
i. Dim yn berthnasol gan bod dim dirprwyaeth
ii. Dim yn berthnasol
iii. Gweler rhestr cefn y rhaglen
iv. Gweler rhestr cefn y rhaglen
v. Dim
vi. Derbyn gan bod nhw eisoes wedi eu trafod o fewn y flwyddyn
vii. Mabwysiadu'r rhestr a diolch i'r clerc
viii. Symud i banel cyllid
ix. Symud i banel cyllid
x. Symud i banel cyllid

10. **Cyngor Gwynedd**

Ymateb parthed cynllunio ar y cyd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth ac edrych ymlaen i gael y dyddiad

11. **Ymateb Bwrdd Iechyd**

Parthed Gofal Dwys Newydd anedig
Penderfynwyd
Derbyn y llythyr a gofyn i fod ar ei rhestr dosbarthu

12.**Cyrsiau Unllais**
Penderfynwyd
Unrhyw un a diddordeb i adael i'r clerc wybod

13.**E-bost a llythyr Iwan ap Trefor**

Parthed arwydd traffig Rhosbodrual
Penderfynwyd
Derbyn y llythyr a peidio cyfrannu a rhoi pwysau arnyn nhw i'w drwsio

14. **Llythyr diolch Eglwys Llanbeblig**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

15. **Adroddiad Pwyllgor Gefeillio**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

16. **Cyngor Gwynedd Pamffled Gwastraff**
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

17.Cyngor Gwynedd

Gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

18**. Cefnogaeth 'Mynyddoedd i Bawb'**
Penderfynwyd
Cefnogi

19. Llythyr S4C
Cyng. H W Roberts wedi paratoi ymateb ac yn gofyn am cefnogaeth y Cyngor
Penderfynwyd
Cefnogi anfon y llythyr

20. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Deiliaid Bathodynnau Anabl Arfaethedig a Deiliad Trwydded Preswylydd Anabl yn unig)

Rhybuddion Cyhoeddus
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

21. Llythyr gan Ei Anrhydedd Arglwydd Thomas o Gwmgiedd

Pâr: Cofiadur Anrhydeddus
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

22. Rhybudd o gynnig Cyng H W Roberts
Parthed bygythiad i gau amgueddfa RWF
Penderfynwyd
Ysgrifennu at Marilyn Lewis Cadw

Cafodd y rheolau sefydlog eu dileu am yr eitem yma)

23. Cwestiynau
Gofynnwyd ym mha gyfarfod oedd hawl i weithredu wedi ei roi i'r panel cyllid parthed swydd Gofalwr ?
Darllenodd y clerc gofnodion cyfarfod Ebrill 22 oedd yn hollol eglur

Gorffennodd y cyfarfod am 8.10

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....